**Crynodeb o Gyfarfod y Bwrdd Teithio Llesol**

**6 Mehefin 2019**

## Cyllid Cyfalaf

Bu'r Bwrdd yn trafod y cyllid cyfalaf y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi i awdurdodau lleol. Amlinellodd y Dirprwy Weinidog y cyllid cyfalaf gafodd ei gyhoeddi ar gyfer 2019-20 a thynnu sylw at ei bwyslais ar gyllido cynlluniau uchelgeisiol yn unig. Roedd y Bwrdd yn gefnogol i hynny ond bod angen help ar awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau uchelgeisiol. Cafwyd peth trafod ar ddefnyddio diagnosteg ymddygiad i ddewis pa seilwaith allai fod fwyaf effeithiol a buddiol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei fod yn disgwyl y gallai adolygu'r Canllaw Dylunio a Darparu, ynghyd â rhoi hyfforddiant a help ychwanegol i gynnal ymgynghoriad, arwain at greu mapiau teithio llesol gwell a manylach gan awdurdodau. Byddai hynny'n sbarduno datblygu cynlluniau gwell.

Tynnwyd sylw'r Bwrdd at adroddiad diweddar Sport England ar deithio lleol a gweithgarwch corfforol. Cytunwyd y dylai arweinwyr gweithgarwch corfforol CNC, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n cydweithio â'i gilydd, gwrdd ag Adrian Davies, un o lunwyr yr adroddiad.

Trafododd y Bwrdd agweddau ymarferol ar gyhoeddi'r grant, gan i'r oedi a'r ceisiadau am wybodaeth ychwanegol greu problemau o ran caniatáu digon o amser i gwblhau cynlluniau o fewn y flwyddyn ariannol. Awgrymwyd y gallai llinell ariannu sylfaenol barhaol neu roi pwerau benthyg i awdurdodau lleol helpu i leihau'r pwysau ar awdurdodau lleol.

## Diogelwch Ffyrdd

Cafodd y Bwrdd drafodaeth sut y gellid newid y sefyllfa bresennol ynghylch diogelwch ffyrdd a newid ffocws y grantiau. Awgrymwyd y dylid defnyddio'r 'theori newid' i wneud hyn, sy'n ystyried problem ac yn defnyddio tystiolaeth i ddewis mesurau addas. Byddai hynny'n fuddiol o ran penderfynu pa ymyriadau i'w cefnogi. Cafwyd cryn drafod am hyn, gyda'r Bwrdd yn cytuno bod angen datblygu model symlach ar gyfer dewis mesurau addas.

Cytunodd y Bwrdd hefyd fod angen creu is-grŵp teithio llesol a diogelwch ffyrdd i drafod y newidiadau posibl i ddiogelwch ffyrdd yn fanylach.

## Y diweddaraf am adolygu'r Canllaw Darparu a Dylunio

Mae'r adolygiad o'r Canllaw Darparu a Dylunio yn mynd yn ei flaen a rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am y datblygiadau diweddaraf. Bydd y dogfennau terfynol yn destun ymgynghoriad llawn. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau trafod â Trafnidiaeth Cymru a sefydliadau proffesiynol fel y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol a Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE) ynghylch sut orau i ddatblygu hyfforddiant a bydd yn gweithio â nhw i lansio ymgynghoriad.

## Cynllun Gweithredu'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Deithio Llesol i'r Ysgol (ATSNAG)

Rhoddwyd crynodeb byr i'r Bwrdd ar gynllun gweithredu'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Deithio Llesol i'r Ysgol (ATSNAG). Mae'r arolwg 'Llaw i Fyny' yn cael ei ddefnyddio gan nifer fach o awdurdodau a chaiff ei roi ar waith trwy'r wlad ym mis Medi 2019. Gofynnodd y Bwrdd

a fyddai modd cynnal yr arolwg llaw i fyny mewn ysgolion uwchradd yn ogystal. Cytunwyd i edrych ar hyn gydag ATSNAG.

Cafodd y Dirprwy Weinidog drafodaeth ynghylch a allai ATSNAG gydweithio fwy â'r grŵp trawsbleidiol ar deithio llesol ac a ddylai gymryd rhan yn y trafodaethau â'r Gweinidog Addysg am ysgolion yr 21ain ganrif. Cytunwyd y dylid gwahodd cynrychiolydd o ATSNAG i ymuno â'r grŵp trawsbleidiol.

**UNRHYW FATER ARALL**

Cafodd y Bwrdd drafodaeth fer am y cyhoeddiad diweddar mai 20mya fydd y terfyn awtomatig yng Nghymru a'r amserlen ar gyfer rhoi hyn ar waith. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y câi panel ei ffurfio a chaiff mwy o wybodaeth ei chyhoeddi yn y Gynhadledd Teithio Llesol. Bydd y panel yn cyhoeddi'i adroddiad cyn pen 12 mis. Dywedodd rhai o'r aelodau bod yr amserlen honno'n hirach na'r gobaith a chytunodd y Dirprwy Weinidog i ystyried a fyddai modd ei gyhoeddi yn gynt.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7 Tachwedd 2019**